**Llywodraeth Cymru**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Rhan 7

## Cryfhau Diogelu

# Ymgysylltu â rhanddeiliaid

## Cyhoeddiad Gweinidogol – Y Panel Cynghori ar Ddiogelu

“Bydd swyddogaeth hollbwysig gan y panel o ran datblygu trefniadau newydd, law yn llaw ag asiantaethau diogelu a rhanddeiliaid allweddol. Bydd yn edrych yn fanwl ar y trefniadau sydd eu hangen i roi fframwaith cyfreithiol cydlynol newydd ar waith er mwyn amddiffyn oedolion, a’r trefniadau cydweithio ac arweiniad newydd.”

## Mae'r Panel wedi:-

- gweithio gyda'r sector statudol, annibynnol a'r trydydd sector, pobl hŷn a phobl ifanc;
- paratoi adroddiad ar gyfer y Dirprwy Weinidog a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014;
- cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu rheoliadau a chanllawiau statudol.

# Darpariaethau Allweddol Rhan 7: Diogelu

- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.
- Byrddau Diogelu Rhanbarthol.
- Cryfhau trefniadau i blant drwy Ddyletswydd i Adrodd newydd.
- Fframwaith cyfreithiol newydd i ddiogelu oedolion gan gynnwys:
    - Diffiniad o oedolyn sy’n wynebu risg;
    - Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn; Byrddau Diogelu Oedolion;
    - Dyletswydd i Adrodd a Dyletswydd i Ymholi.

# Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Bwrdd Cynghori drwy benodiadau cyhoeddus i:-

- gynghori a chynorthwyo Byrddau Diogelu;
- hyrwyddo gwella, cysondeb a chydweithio;
- cyfleu a rhannu arfer da;
- cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd diogelu;
- gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru;
- cyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru.

# Byrddau Diogelu

Amcan - diogelu ac atal.

Mae Rheoliadau a Chanllawiau Statudol yn nodi:-

- Partner Arweiniol;
- Ardaloedd Byrddau Diogelu;
- Swyddogaethau a Gweithdrefnau;
- Cyfranogiad Defnyddiwr;
- Cynlluniau Blynyddol ac Adroddiadau Blynyddol;
- Cyllid.

# Dyletswydd i Adrodd

Rhaid i Bartneriaid Perthnasol awdurdod lleol roi gwybod:-

- os bydd ganddynt sail resymol dros gredu bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg yn eu hardal awdurdod lleol hwy neu ardal awdurdod lleol arall y mae'r oedolyn yn cynnig symud iddi;
- os bydd ganddynt sail resymol dros gredu bod plentyn yn blentyn sy'n wynebu risg yn eu hardal awdurdod lleol neu ardal awdurdod lleol arall.

# Dyletswydd i Ymholi

Os bydd awdurdod lleol yn credu bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i:-

- wneud ymholiadau;
- peri i eraill wneud ymholiadau;
- penderfynu a yw'r person yn oedolyn sy’n wynebu risg;
- penderfynu pa gamau sy'n ofynnol, os o gwbl;
- cofnodi'r casgliadau mewn cynllun gofal a chymorth.

# Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

Gall Swyddog Awdurdodedig a benodir gan yr awdurdod lleol wneud cais i Ynad Heddwch – pan fetho popeth arall.

Gorchymyn i rymuso Swyddog Awdurdodedig:

- mynd i mewn i eiddo (gyda chwnstabl yr heddlu);
- siarad yn breifat;
- gwirio bod penderfyniadau'n cael eu gwneud o'u gwirfodd;
- penderfynu a oes angen cymryd camau “oedolyn sy’n wynebu risg”.